



Datganiadau Tynnu Dŵr - Cwestiynau Cyffredin

1) Gofyniad i gyflwyno datganiad	2
a) Pam fod angen i fi lenwi ffurflen datganiad?	2
b) Ar gyfer beth y defnyddir yr wybodaeth?	2
c) Beth sy'n digwydd os na chyflwynir ffurflen datganiad gennyf?	2
2) Derbyn hysbysiadau ffurflenni datganiad	2
a) Pam ydw i wedi derbyn dau e-bost gan Cyfoeth Naturiol Cymru?	2
b) Pam fod gennyf fwy na dau e-bost gan Cyfoeth Naturiol Cymru?	2
c) Sut ydw i'n gwybod at ba flwyddyn y mae'r ffurflen yn cyfeirio?	3
ch) Rhoddais gyfeiriad e-bost i chi, pam ydw i wedi derbyn ffurflen bapur?	3
d) Nid wyf wedi derbyn ffurflen datganiad eto, ond rwy'n credu y dylwn fod wedi ei chael.....	3
3) Llenwi ffurflenni datganiad.....	5
a) Nid wyf wedi tynnu unrhyw ddŵr – oes rhaid i fi lenwi ffurflen datganiad o hyd?	5
b) Nid wyf yn defnyddio'r drwydded/nid oes angen y drwydded arnaf bellach – oes rhaid i mi lenwi ffurflen datganiad o hyd?	5
c) Nid yw'r manylion a nodir yn awtomatig ar y ffurflen datganiad yn gywir – sut allaf gael y rhain wedi'u newid?	5
ch) A allaf gyflwyno gwybodaeth ar fy ffurflen fy hun?	5
d) Pa rannau o'r ffurflen datganiad sydd angen i mi eu cwblhau?	5
4) Creu'r ffeil .xml a'i chyflwyno (ffurflen datganiad electronig yn unig)	7
a) Nid wyf yn gallu creu'r ddogfen .xml ar gyfer ei chyflwyno - beth ddylwn ei wneud? .	7
5) Ymholiadau sy'n ymwneud â'r drwydded	7
a) Mae angen i mi wneud newidiadau i fy nhrwydded tynnu dŵr gyfredol – sut ydw i'n gwneud hyn?	7
b) Nid wyf yn hapus gyda / Nid wyf yn deall yr amodau mesur a chofnodi ar fy nhrwydded - beth ddylwn ei wneud?	8

1) Gofyniad i gyflwyno datganiad

a) Pam fod angen i fi lenwi ffurflen datganiad?

Mae llenwi a chyflwyno eich ffurflen datganiad yn amod o'ch trwydded. Mae angen inni wybod faint o ddŵr rydych chi wedi'i dynnu er mwyn ein helpu ni i ofalu am yr amgylchedd a rheoli'r adnodd dŵr yr ydych yn dibynnu arno.

b) Ar gyfer beth y defnyddir yr wybodaeth?

Mae'r wybodaeth rydych yn ei darparu'n bwysig, a chaiff ei defnyddio gennym ni i wneud y canlynol:

- Asesu effaith yr holl ddŵr trwyddedig a dynnir ar lif afonydd a lefelau dŵr daear yn gywir, yn ogystal â'r effaith ar gynefinoedd, rhywogaethau a safleoedd sy'n dibynnu ar ddŵr ledled Cymru
- Asesu'r galw am ddŵr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol
- Dyrannu unrhyw adnoddau dŵr sy'n weddill i dynwyr dŵr eraill
- Cyhoeddi gwybodaeth ddienw am ddefnydd dŵr ledled Cymru
- Gwirio bod deiliaid trwyddedau yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded

c) Beth sy'n digwydd os na chyflwynir ffurflen datganiad gennyf?

Os na fyddwch yn anfon eich datganiad tynnu dŵr atom o fewn 28 diwrnod i ni ofyn amdano, neu o fewn pythefnos i'r nodyn atgoffa, byddwn yn cofnodi eich bod wedi torri amodau eich trwydded. Gallai methu â chydymffurfio ag amodau eich trwydded ein harwain ni i gymryd camau gorfodi yn eich erbyn

Yn ogystal:

- Os oes gan eich trwydded derfyn amser, mae'n bosibl na fyddwch yn gallu ei hadnewyddu
- Gallai taliadau tynnu dŵr gynyddu yn y dyfodol er mwyn talu am y costau ychwanegol yr awn iddynt yn sgil ein hangen i ymchwilio i achosion o beidio â chyflwyno ffurflenni datganiad.
- Os ydych yn tynnu dŵr ar gyfer dyfrhau a bod gennych gytundeb bilio tariff dwy ran, bydd eich taliadau'n cael eu cyfrifo yn ôl faint o ddŵr y mae gennych drwydded i'w dynnu, nid eich defnydd gwirioneddol. Bydd hyn yn costio mwy o arian i chi; nid ydym yn rhoi ad-daliadau am gyflwyniadau hwyr.

2) Derbyn hysbysiadau ffurflenni datganiad

a) Pam ydw i wedi derbyn dau e-bost gan Cyfoeth Naturiol Cymru?

Ni ofynnwyd am ddata datganiadau ar gyfer 2016-2017 oherwydd problemau technegol gyda'r system. Er mwyn casglu'r rhain, rydym yn gofyn am ddatganiadau nawr ar gyfer 2016-17 a 2017-18.

b) Pam fod gennyf fwy na dau e-bost gan Cyfoeth Naturiol Cymru?

Pan fydd trwydded yn awdurdodi tynnu dŵr ar gyfer mwy nag un diben a/neu mewn mwy nag un lleoliad, gallai fod angen cyflwyno nifer o ffurflenni datganiad y flwyddyn

ar gyfer pob trwydded. Bydd hyn wedi'i nodi yn amodau'r drwydded, a chaiff hysbysiadau datganiadau eu creu yn unol â'r amodau hyn.

c) **Sut ydych chi'n gwybod at ba flwyddyn y mae'r ffurflen yn cyfeirio?**

Dylech fod wedi derbyn dau e-bost gyda'r teitl Hysbysiad Datganiadau Tynnu Dŵr, ac yna rhif y drwydded a dechrau'r flwyddyn y mae'n cyfeirio ati.

Er enghraifft, bydd "Datganiadau Tynnu Dŵr 19/55/04/0001 330 2017" yn gais ar gyfer rhif y drwydded 19/55/04/0001 ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018.

Yn y ffurflenni datganiad sydd wedi'u hatodi, bydd y blychau gwybodaeth ar gyfer rhif y drwydded, enw'r safle a'r diben yn eich helpu i nodi pa ddiben, lleoliad a thrwydded y mae pob ffurflen yn ymwneud â hi.

ch) **Rhoddais gyfeiriad e-bost i chi, pam ydych chi'n wedi derbyn ffurflen bapur?**

Rydym wedi cael anhawster gyda rhai o'r cyfeiriadau e-bost a ddarparwyd i ni. Yn yr achosion hyn, mae ffurflen bapur wedi'i hanfon y tro hwn.

Cysylltwch â ni drwy e-bost yn

waterresources.returns@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk i ofyn am ffurflen electronig. Dyfynnwch rif eich trwydded(au) pan fyddwch yn cysylltu â ni.

d) **Nid wyf wedi derbyn ffurflen datganiad eto, ond rwy'n credu y dylwn fod wedi ei chael.**

Mae'r ceisiadau am ffurflenni datganiad ar gyfer y flwyddyn hon yn hwyr oherwydd problemau technegol a'r sychder yr haf hwn. Rydym yn dechrau'r broses o gyflwyno ffurflenni datganiad nawr, ac rydym yn gwasgaru'r ceisiadau eleni. Oherwydd hyn, gallech ganfod fod tynwyr dŵr eraill wedi derbyn eu ceisiadau cyn chi. Os nad ydych chi'n wedi derbyn eich cais erbyn 15/12/2018 cysylltwch â ni ar 0300 065 3000 neu anfonwch e-bost i waterresources.returns@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk. Sicrhewch fod gennych rif eich trwydded(au) wrth law pan fyddwch yn cysylltu â ni.

dd) **Sut ydych chi'n cofrestru i gael hysbysiadau ffurflenni datganiad electronig?**

Os ydych chi'n cael ffurflen datganiad bapur ar hyn o bryd, ond hoffech gael un drwy e-bost i'w llenwi yn Excel, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost at

waterresources.returns@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk i ofyn am ffurflen electronig. Sicrhewch fod gennych rif eich trwydded(au) wrth law pan fyddwch yn cysylltu â ni.

e) **Rwyf wedi derbyn hysbysiad am ffurflen datganiad ar gyfer trwydded/tyniad dŵr nad wyf yn gyfrifol amdano - beth ddylwn ei wneud?**

Cysylltwch â'n Canolfan Gofal Cwsmeriaid ar 0300 065 3000 neu drwy waterresources.returns@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk - pan fyddwch yn cysylltu â ni, sicrhewch eich bod yn dyfynnu'r rhif ID sydd ar frig y ffurflen.

f) **Mae fy nhrwydded wedi dod i ben, wedi'i dirymu neu wedi ei throsglwyddo i rywun arall, ond rwyf wedi cael cais am ddatganiad o hyd – pa gamau sydd angen i mi eu cymryd?**

Mae angen i chi lenwi'r ffurflen datganiad i ddarparu gwybodaeth am eich gweithgareddau tynnu dŵr rhwng dechrau cyfnod y datganiad tynnu dŵr (yn y blwch

â'r teitl 'Dyddiad dechrau cyfnod y datganiad' ar frig y ffurflen) a'r dyddiad y daeth y drwydded i ben, neu'r dyddiad y cafodd ei throsglwyddo neu ei dirymu.

3) Llenwi ffurflenni datganiad

- a) Nid wyf wedi tynnu unrhyw ddŵr – oes rhaid i fi llenwi ffurflen datganiad o hyd?
Oes.

Os ydych wedi derbyn hysbysiad datganiad ac nid oes unrhyw ddŵr wedi'i dynnu, rhaid i chi gwblhau a chyflwyno 'datganiad sero'. Mae hwn yn datgan nad oes unrhyw ddŵr wedi'i dynnu yn ystod cyfnod y datganiad. Rhaid cwblhau hyn ar y ffurflen ddatganiad yr ydym wedi'i hanfon atoch.

- b) Nid wyf yn defnyddio'r drwydded/nid oes angen y drwydded arnaf bellach – oes rhaid i mi llenwi ffurflen datganiad o hyd?
Oes.

Os mai chi yw deiliad y drwydded, chi sy'n gorfod darparu manylion ar faint o ddŵr a dynnwyd yn unol ag amodau eich trwydded, hyd yn oed os nad ydych wedi tynnu unrhyw ddŵr.

Os yw eich amgylchiadau wedi newid ac nad ydych angen y drwydded mwyach, dylech ystyried ei dirymu (ei chanslo), neu byddwch yn parhau i fod yn gyfrifol am dalu tâl blynyddol a chyflwyno ffurflenni datganiad. Gellir cael gwybodaeth am sut i newid trwydded gyfredol ar ein gwefan yn <http://naturalresources.wales/permits-and-permissions/water-abstraction-and-impoundment/applying-to-change-an-existing-abstraction-or-impoundment-licence/?lang=cy>

- c) Nid yw'r manylion a nodir yn awtomatig ar y ffurflen datganiad yn gywir – sut allaf gael y rhain wedi'u newid?

Llenwch y ffurflen yr anfonwyd atoch a'i chyflwyno i ni. Gellir diweddarau newidiadau i'r manylion a nodir yn awtomatig ar eich ffurflen, bydd rhai newidiadau yn gofyn i chi gwblhau a chyflwyno cais ffurfiol er mwyn amrywio amodau eich trwydded tynnu dŵr. Rhowch wybod i ni pa newidiadau sydd angen eu gwneud trwy ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid ar 0300 065 3000 neu drwy waterresources.returns@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk fel y gallwn eich cynghori ar y ffordd orau o fynd ati i wneud y newidiadau hyn.

- ch) A allaf gyflwyno gwybodaeth ar fy ffurflen fy hun?
Na allwch.

Mae'r ffurflen yr ydym yn ei darparu wedi'i chynllunio gyda dau ddiben mewn golwg – i gasglu'r holl wybodaeth sydd arnom ei hangen oddi wrthyich ac i sicrhau ei bod yn cydweddu â'n cronfa ddata gyfredol. Sefydlwyd y trefniadau ar gyfer trwyddedu tynnu dŵr gan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1963, sydd hefyd yn nodi y gallwn ofyn am ba bynnag wybodaeth sydd arnom ei hangen gennych i fonitro eich cydymffurfiaeth â'r gyfraith ar unrhyw fformat a nodir gennym.

- d) Pa rannau o'r ffurflen datganiad sydd angen i mi eu cwblhau?

Darperir gwybodaeth fanwl am ba adrannau sydd angen i chi eu cwblhau yn y canllawiau diwygiedig yr ydym wedi'u cynhyrchu. Caiff y canllawiau perthnasol eu

darparu gyda hysbysiadau datganiad papur. Ar gyfer ffurflenni datganiad electronig, gallwch ddod o hyd i'r canllawiau perthnasol yn <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/water-abstraction-returns/?lang=cy> (darperir y ddolen hon yn eich e-bost hysbysiad datganiad hefyd).

Yn ogystal â'r canllawiau, bydd gwybodaeth ddefnyddiol hefyd yn ymddangos pan fyddwch yn dechrau teipio gwybodaeth mewn adrannau penodol o'r ffurflen datganiad electronig.

- dd) Rwy'n credu fy mod wedi derbyn y ffurflen anghywir - beth ddylwn ei wneud?
Gwiriwch y canllawiau i gadarnhau, os ydych yn sicr eich bod wedi derbyn y ffurflen anghywir, cysylltwch â ni ar 0300 065 3000 neu anfonwch e-bost i waterresources.returns@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
- e) Rwy'n cael anhawster llenwi fy ffurflen datganiad - beth ddylwn ei wneud?
Sicrhewch eich bod wedi darllen y canllaw cam wrth gam ar sut i gwblhau eich datganiad a ddarparwyd gyda'ch ffurflen datganiad neu yn <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/water-abstraction-returns/?lang=cy>
Os ydych yn parhau i gael anawsterau, ffoniwch ni ar 0300 065 3000 neu anfonwch e-bost i waterresources.returns@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
- f) Dim ond awdurdod i dynnu dŵr yn yr haf (rhwng Ebrill a Hydref) neu'r gaeaf (rhwng Tachwedd a Mawrth) y mae fy nhrwydded yn ei ganiatáu, ond mae'r ffurflen datganiad yn ymdrin â'r 12 mis - beth ddylwn ei wneud?
Ychwanegwch fanylion y dŵr y gwnaethoch chi ei dynnu yn y misoedd y gwnaethoch chi ei dynnu a gadewch y misoedd lle na wnaethoch dynnu dŵr yn wag.
- ff) Beth yw 'datganiad sero'?
Mae 'datganiad sero' yn nodi nad oes unrhyw ddŵr wedi'i dynnu yn ystod y cyfnod adrodd ar gyfer tynnu dŵr. Rhaid i chi llenwi eich ffurflen datganiad o hyd a'i dychwelyd atom, hyd yn oed os nad ydych wedi tynnu unrhyw ddŵr.
- g) Rwyf wedi defnyddio mwy nag un mesurydd yn ystod cyfnod adrodd y datganiad - beth ddylwn ei wneud?
Nodwch wneuthuriad a rhif cyfresol y mesurydd cyntaf y gwnaethoch chi ei ddefnyddio ar y ffurflen, yna nodwch wneuthuriad a rhif cyfresol pob mesurydd dilynol a ddefnyddiwyd yn yr adran 'gwybodaeth bellach' ar y ffurflen bapur, neu mewn atodiad i'ch ateb drwy e-bost.
- ng) Rwy'n mesur cyfeintiau'r dŵr a dynnir drwy dull heb fesurydd a hoffwn ddarparu manylion fy nghyfrifiadau – sut ydw i'n gwneud hyn?
Nodwch sut rydych yn mesur cyfeintiau'r dŵr a dynnir yn Adran 5, 'Gwybodaeth bellach' ar y ffurflen bapur, neu mewn atodiad i'ch ateb drwy e-bost.
- h) Rwyf eisiau copïo a gludo data o ffynhonnell electronig arall. A allaf wneud hyn?

Gallwch.

Gallwch wneud hyn bellach drwy ddefnyddio swyddogaeth y fformiwla gludo. Ceir rhagor o fanylion ar sut i wneud hyn yn y canllawiau <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/water-abstraction-returns/?lang=cy>

i) **Nid yw'r adran cyfanswm y dŵr a dynnwyd yn llenwi'n awtomatig – pam?**

Nid camgymeriad ar y ffurflen mo hyn, bydd angen i chi gyfrifo hwn eich hun. Mae nifer o resymau dros hyn, gan gynnwys osgoi cam-gyfrifo pan fydd mwy nag un mesurydd wedi'i ddefnyddio yn ystod y cyfnod tynnu dŵr a dilysrwydd darlleniad y mesurydd / y data ar gyfeintiau'r dŵr a dynnwyd a nodwyd.

j) **Rwy'n tynnu dŵr er mwyn cynhyrchu ynni dŵr, ond nid wyf yn gwybod pa ddata perfformiad sydd ei angen yn Adran 6 fy nalen 'datganiad hydro' - beth ddylwn ei wneud?**

Nid ydym yn cadw'r wybodaeth hon, dylech fod wedi cofnodi'r data perfformiad (effeithlonrwydd y pen gweithredu net a'r tyrbin/olwyn ddŵr, y generadur a'r system drosglwyddo) ar y rhestr wirio ar gyfer cyfrifo a atodwyd i ddogfen eich trwydded. Os nad ydych yn gwybod yr wybodaeth hon, bydd yn rhaid i chi gysylltu â'r cwmni a ddarparodd yr offer i chi.

4) Creu'r ffeil .xml a'i chyflwyno (ffurflen datganiad electronig yn unig)

a) **Nid wyf yn gallu creu'r ddogfen .xml ar gyfer ei chyflwyno - beth ddylwn ei wneud?**

- Edrychwch ar y 'Rhestr wirio Cwblhau' ar waelod eich ffurflen datganiad, dylech weld 'amherthnasol' neu 'le' ym mhob bocs. Os oes 'Na' wedi'i nodi ynddynt, adolygwch a chwblhewch yr adrannau perthnasol.
- Os oes 'ie' ym mhob adran, gwiriwch y ffeil lle y gwnaethoch gadw eich ffurflen datganiad. Nid yw'r ffurflen yn eich hysbysu fod yr .xml wedi'i chreu, dylech ddod o hyd i'r .xml wedi'i chadw gyda'r ffurflen dychwelyd.
- Sicrhewch fod y ffeil yn cael ei chadw'n syth i'ch cyfrifiadur, e.e. i'ch bwrdd gwaith neu 'my documents'. Mae'n bosibl na fydd swyddogaeth cadw'r .xml yn gweithio os ydych yn storio eich dogfennau o bell, er enghraifft, i weinydd eich cwmni neu i system gwmwl fel One Drive neu Drop Box.

5) Ymholiadau sy'n ymwneud â'r drwydded

a) **Mae angen i mi wneud newidiadau i fy nhrwydded tynnu dŵr gyfredol – sut ydw i'n gwneud hyn?**

Gellir cael gwybodaeth am sut i newid trwydded gyfredol ar ein gwefan yn <http://naturalresources.wales/permits-and-permissions/water-abstraction-and-impoundment/applying-to-change-an-existing-abstraction-or-impoundment-licence/?lang=cy>

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu os hoffech drafod newid(iadau) arfaethedig i'ch trwydded, cysylltwch â'n Canolfan Gofal Cwsmeriaid ar 0300 065

3000 neu drwy enquiries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk - cofiwch ddyfynnu rhif eich trwydded(au) tynnu dŵr pan fyddwch yn cysylltu â ni.

b) Nid wyf yn hapus gyda / Nid wyf yn deall yr amodau mesur a chofnodi ar fy nhrwydded - beth ddylwn ei wneud?

Cysylltwch â'n Canolfan Gofal Cwsmeriaid ar 0300 065 3000 neu drwy waterresources.returns@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk - cofiwch ddyfynnu rhif eich trwydded(au) tynnu dŵr pan fyddwch yn cysylltu â ni.